

RAVENSROFT, teulu a gysylltir â phlwyf Penarlâg, ond a hanoedd o Ravenscroft, Middlewich, yn sir Gaerlleon

Cynrychiolid y brif gainc ohonynt yn y 17eg ganrif gan dylwyth o'r enw Croxton. Yn y 14eg ganrif yr ymddengys y gainc (iau) o'r Ravenscroftiaid yng Nghymru; ond cychwynnwn yma gyda HUGH DE RAVENSROFT, a oedd yn stiward yr Hôb a Phenarlâg a'r Wyddgrug, ganol y 15fed ganrif, ac a briododd ag Isabella Holland o Bretton ym Mhenarlâg. Heb ymboeni â'i fab Henry (a fu farw 1486) nac â'i wyr Ralph Ravenscroft, nodwn ddau o feibion Ralph, sef (1) George a (2) John.

(I) GEORGE RAVENSROFT 'o Bretton,'

mab hynaf y Ralph uchod; ohono ef y tardd rhes o uchelwyr blaenllaw yn eu sir; yr oedd ef yn fyw yn 1517, a'i fab THOMAS RAVENSROFT yn fyw yn 1547. Mab hynaf Thomas Ravenscroft oedd GEORGE RAVENSROFT, siryf 1578-9, a fu farw yn 1592 ac a goffeir (fel eraill o'r tylwyth) yn eglwys Penarlâg; bu'n aelod seneddol dros ei sir yn 1563-7; yr oedd ei briod, Dorothy, yn ferch ac aeres John Davies, cwnstabl castell Penarlâg a pherchen ty Broadlane gerllaw iddo. (Chwaer i'r George Ravenscroft hwn oedd Elizabeth, priod yr arglwydd-ganghellor Thomas Egerton y gwelir ei hanes rhamantus yn y *D.N.B.*). O blant George, dylid enwi ei ferch Katherine, a briododd â [Robert Davies](#) o'r Gwysaneu, a thri o'i feibion:

(1) THOMAS RAVENSROFT, y mab hynaf, siryf Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil 1606-7, a fu farw 1630.

Meibion iddo ef oedd ROBERT RAVENSROFT (1589 - 1640, aelod seneddol yn 1614), a THOMAS RAVENSROFT, cychwynnydd cainc annibynnol ' Ravenscroft o Pickhill ' yn sir Ddinbych (ond nepell o Fangor Iscoed, gweler *P. Fadog*, iii, 181). Mab Robert Ravenscroft oedd y cyrnol THOMAS RAVENSROFT a ddaeth i beth sylw yn y Rhyfel Cartrefol. Serch bod ei briod yn ferch i'r Brenhinwr pybyr [William Salusbury](#) o Rug, ochrai ef gyda'r Senedd, ac ym mis Tachwedd 1643 traddododd gastell Penarlâg i fyddin y Senedd - ' betrayed by one Ravenscroft ' yw geiriau sgornllyd yr [archesgob John Williams](#) am y peth ([J. R. Phillips](#), *Civil War in Wales*, i, 180; ii, 99). Ym mis Mai 1648 (op. cit., ii, 371) penodwyd ef yn aelod o'r pwyllgor seneddol a rolygai sir y Fflint; ond ar ôl 1660 maddeuwyd ei gamwedd iddo. Dilynwyd ef gan ei fab EDWARD RAVENSROFT, a briododd ag Anne, ferch [Syr Richard Lloyd](#) o Esclus, ac a fu farw 1678. Eu mab hwy - a'r gwr olaf o'r tylwyth hwn - oedd THOMAS RAVENSROFT ('o Broadlane'), 1670 - 1698, siryf 1692, aelod seneddol 1697-8, a fu farw 3 Mai 1698, gan adael dwy aeres, Honora a Catherine. Trwy briodas â merch i Honora y daeth teulu [Glynne](#), a theulu Gladstone wedyn, i feddiant o Broadlane, a ailadeiladwyd yn 1752 ac a elwir heddiw'n ' Gastell Penarlâg.' Ar y llaw arall, prynwyd cyfran Catherine o'r stad (yn 1756) gan deulu Grosvenor.

(2) WILLIAM RAVENSROFT,

ail fab George Ravenscroft, a aned yn Bretton ac a aeth i Goleg Brasenose yn Rhydychen ac i Lincoln's Inn (yr oedd yn ' Bencher ' yno); cafodd y swydd o ' Clerk of the Petty Bag ' yn y Siawnsri. Bu'n aelod seneddol dros sir y Fflint yn 1586-7 ac yn 1601, dros Old Sarum yn 1604-11, a thros fwrdeisdrefi'r Fflint yn 1620-2, 1624, 1625, a 1628. Bu farw'n ddi-briod yn 1628, a chladdwyd ym Mhenarlâg.

(3) ROGER RAVENSROFT (a fu farw 1634), rheithor Crefydd Dodleston yn sir Gaerlleon.

Ar ryw olwg, y mwyaf adnabyddus o'r holl deulu yw mab iddo ef, sef y cerddor THOMAS RAVENSROFT (1592 - 1635?), a aned ym Mhenarlâg ac a enillodd ei le yn y *D.N.B.* Cynefin ddigon, yn ein llyfrau tonau cynulleidfaol, yw'r geiriau 'o Sallwyr Ravenscroft,' sef y llyfr *The Whole Book of Psalms* a olygodd ef yn 1621 ac y cyfrannodd iddo gynganeddion i 48 o donau. Ni sonnir dim am ei dras yn y *D.N.B.*, ond y mae ei *Melismata*, 1611, yn cynnwys cyflwyniad i'w ddau ewythr Thomas a William a enwyd dan (1) a (2) uchod.

(II) JOHN RAVENSROFT,

ail fab Ralph Ravenscroft, a chychwynnydd cainc ' Ravenscroft o Benarlâg,' gweler yr ach yn *P. Fadog*, v, 271-2. Aeth ail wyr y John hwn, THOMAS RAVENSROFT (ganwyd ym Mhenarlâg yn 1563) i Middlesex; claddwyd ef yn Barnet (Herts) yn 1630. Yr oedd ei fab ef, JAMES RAVENSROFT (1595 - 1679), bargyfreithiwr, yn enwog am ei elusengarwch. O blant niferus hwnnw, rhydd y *D.N.B.* gryn le i un, sef y dramodydd EDWARD RAVENSROFT, eto heb fanylu ar ei dras. Cyflwynodd hwn un o'i ddramâu i'r Thomas Ravenscroft (1670 - 1698), a enwyd dan I (1) uchod, am ei fod yn gâr iddo. Yn 1643 y ganwyd Edward Ravenscroft, yn Colston Bassett (Notts), a chladdwyd ef yno 13 Chwefror 1703/4.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

A memoir of Hawarden parish, Flintshire, containing short introductory notices of the princes of North Wales so far as to

connect, and elucidate, distant and obscure events (Caer 1822) (gan Richard Willett, 1822), 32, 90

History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog, v, 264-72

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

Ond nid yw'r awdurdodau hyn yn fanwl nac yn gwbl gyson â'i gilydd, a phrif garn yr ysgrif uchod yw'r manylion helaeth a gafwyd drwy garedigrwydd y Parch. R. Bathurst Ravenscroft, rheithor Calverton (Bucks) ac awdur *The History of the Ravenscroft Family* (1915), 1915

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804747](https://www.wikidata.org/wiki/Q20804747)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

